**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(HEOL ABERNANT A HEOL-Y-PARC, ABERDÂR)**

**GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS) 2022**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae pryderon wedi dod i law ynghylch tagfeydd a cherbydau sydd wedi'u parcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr ar Heol Abernant a Heol-y-Parc. Mae hyn yn cynnwys tagfeydd a achosir gan barcio dwbl a'r ffyrdd cul, sy'n arwain at rwystro traffig rhag llifo i'r ddau gyfeiriad, hefyd mae hi'n anodd i yrwyr cerbydau sy'n gadael cyffyrdd yn y rhan yma o'r ffordd, sy'n llwybr bysiau, weld cerbydau sy'n dod tuag atyn nhw.

Yn ogystal â hyn, yn dilyn caniatâd cynllunio ar gyfer dau eiddo ar safle'r hen Gapel Bethel, mae angen cyfyngiadau aros newydd ar ochr y ffordd gyferbyn â chyffordd Heol Abernant / Heol-y-Parc, er mwyn lliniaru effaith andwyol parcio ar y stryd wrth y gyffordd yn dilyn y datblygiad.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon yma, mae cynigion wedi'u datblygu i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) ar hyd rhan o Heol Abernant a Heol-y-Parc.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y mesurau yma'n angenrheidiol i leihau tagfeydd, atal cerbydau rhag cael eu parcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr, helpu llif y traffig ac i wella diogelwch y briffordd a diogelwch cerddwyr.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(ABERNANT ROAD AND HEOL-Y-PARC, ABERDARE)**

**(WAITING RESTRICTIONS) ORDER 2022**

## STATEMENT OF REASONS

Concerns have been received regarding congestion and obstructive parking on Abernant Road and Heol-Y-Parc. This includes congestion caused by double parking and the narrow road widths, which leads to the obstruction of two-way traffic, and also poor visibility for vehicles exiting junctions in this section of road, which is a bus route.

In addition, following the planning approval for two properties on the site of the former Bethel Chapel, new waiting restrictions on the side of the road opposite the Abernant Road / Heol-Y-Parc junction are required, in order to mitigate the adverse impact of on-street parking at and in the vicinity of the junction following the development.

To address these concerns proposals have been developed to introduce prohibition of waiting at any time restrictions (double yellow lines) along a section of Abernant Road and Heol-Y-Parc.

The Council considers that these measures are necessary to reduce congestion, prevent obstructive parking, and help facilitate the passage of traffic and improve highway and pedestrian safety.